

Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Y Felinheli a gynhaliwyd ar y 12fed Hydref, 2010, yng Nghapel Bethania, Y Felinheli
Minutes of the meeting of Felinheli Community Council held on 12th October 2010 at Bethania Chapel, Y Felinheli

Yn Bresennol/Present: Ken R. Brown (Cadeirydd) Daniel Williams (Is-gadeirydd)
Iestyn Harris; Aled Job; Pat Jones;
Carolyn Pritchard; Gerald Roberts; George Smith

1) Sylwadau Agoriadol/Opening Remarks:

Croesawyd pawb i'r Pwyllgor gyda diolch i Bwyllgor Rheoli'r Neuadd am eu holl waith.

All were welcomed to the Meeting with thanks to the Hall Management Committee for their work.

2) Ymddiheuriadau/Apologies

Lena Ashley; Siân Gwennlian;
Eluned Owen; Meirion Roscoe; Pat White

3) Datgan Diddordeb / Declaration of Interest – Dim / None

4) Cofnodion/Minutes:

Derbyniwyd cofnodion o'r Cyfarfod a gynhaliwyd ar 14eg Medi fel rhai cywir.

Minutes of the Meeting held on 14th September were confirmed as correct.

Materion I'w Trafod/Matters for Discussion:

- i) Gwefan Cymunedol –32411ymweliadau yn ystod mis Medi.
- ii) Traffic a Parcio – Cyfyngu amser parcio ar Stryd Bangor – Disgwyl Cyngor Gwynedd i weithredu – sef 2 awr tu allan i Felin Sgwrsio a gobeithio newid yn amser o flaen y garej i awr.
Gardd Fon – Disgwyl i Gyngor Gwynedd weithredu.
- iii) Canolfan Iechyd Rowen : Dim pellach i adrodd ar hyn o bryd.
- iv) Felin Daclus :- Dim adroddiad mis yma.
- v) Tai Fforddiadwy : Tan y Maes, Y Felinheli - Dim symudiad..
- vi) Les tir yr hen rheilffordd, Ffordd Caernarfon – Mater yn nwylo Cyfreithiwr y Cyngor a Chyngor Gwynedd.
- vii) Prydles Tir Neuadd yr Eglwys - Dim symundiad pellach. Aros am ymateb yr Eglwys..
- viii) Baw Cwn – Dal i fod yn broblem mewn rhannau o'r pentref. Cais am i'r warden cwn ymdangos yn y pentref.
- ix) Problem parcio ar gornel Lon Emyr – Cyngor Gwynedd am roi llinellau melyn.
- x) Ymestyn ffiniau cyfyngiadau cyflymder – gweler gohebiaeth.
- xi) Gor-yrru ger yr ysgol – Cyngor Gwynedd yn ymwybodol o hyn.
- xii) Arogl drwg ger Gardd Fon – Ymateb Bwrdd Dwr – ddim yn sicr beth sydd yn achosi'r broblem. Ymholiadau pellach yw gwneud er mwyn darganfod yr

union man mae gwreiddiad y broblem. Cysylltu eto mewn 6 wythnos.

- i) Community Web Site – 32411 hits during the month of September
- ii) Traffic and Parking – Restricted parking on Bangor Street – Waiting for Gwynedd Council to implement, i.e. 2 hours outside Felin Sgwrsio and hopefully 1 hour opposite the Central Garage.
Gardd Fon – Gwynedd Council to implement.
- iii) Rowen Health Centre – Nothing further to report at present.
- iv) FELIN DACLUS – no report.
- v) Affordable Housing : Tan y Maes, Y Felinheli. No movement.
- vi) Lease on the old Railway Line, Caernarfon Road – matter in the hands of the Community Council's Solicitor and Gwynedd Council.
- vii) Lease of Church House Land – No further movement. Awaiting response from Church.
- viii) Dog Fouling – remains a problem in some parts of the village. Request for the Dog Warden to make an appearance in the village..
- ix) Parking problems on Lon Emyr corner – Gwynedd Council to arrange yellow line road markings.
- x) Extending speed restriction limits – See correspondence.
- xi) Speeding outside school – Gwynedd Council aware of situation.

5) Adroddiad Pwyllgor Rheoli'r Neuadd / Hall Management Committee Report

Yn dilyn ymweliad a'r Neuadd cyn cyfarfod o'r Cyngor Cymuned, adroddwyd bod yn gwaith yn symud mlaen tuag at cwblhau y brosiect ar 5ed Tachwedd.. Cafwyd grynodedb o'r gwaith sydd wedi ei gwblhau a'r gwaith sydd ei angen tuag at ei gwblhau..

Following a site visit preceeding the Community Council's meeting, it was reported that the work is progressing satisfactorily towards the completion date of 5th November. A summary of the work undertaken and the works pending towards final completion.

6) Cadarnhau Gwariant y mis blaenorol ac Adroddiad Ariannol/Confirm Payments for the Previous Month and Financial Report:

Cadarnhawyd dreflen o wariant y Cyngor am fis Medi.

7) Gohebiaeth/Correspondence:

Nodwyd a gweithredwyd fel bo angen, y gohebiaeth a ddaeth i law yn ystod y mis.

Correspondence received during the month were noted and acted upon as necessary.

- 1) Cyngor Gwynedd – Gwynedd Council – Cyfyngiad Cyflymder 40mya / Proposed 40mph Speed Limit
Derbyniwyd Rhybudd oddi wrth Cyngor Gwynedd eu bod yn ystyried cyflwyno cyfyngiad cyflymder 40mya o'r cyfyngiad presennol 30mya am bellter o 600 metr mewn cyfeiriad gorllewinol tuag at Caernarfon, h.y. heibio cartref Cerrig yr Afon - Derbyniwyd y bwriad yn groesawys am fod y Cyngor Cymuned eisioes wedi awgrymu hyn.

Notice received from Gwynedd Council that it is considering implementing a 40mph speed restriction from the existing restriction of 30mph for a distance of 600 metres in a westerly direction i.e. outside Cerrig yr Afon Residential Nursing Home. The suggestion was warmly welcomed as the Community Council had previously suggested this.

- 2) Llywodraeth Leol I Gymru – Local Government for Wales – Arolwg o'r trefniadau etholiadol ar gyfer Sir Gwynedd cynigion draft. / Review of the Electoral Arrangements for the County of Gwynedd Draft Proposals
Nodwyd cynnwys y llythyr am nad oedd yn effeithio sefyllfa yn Y Felinheli.
Content noted as the arrangements did not affect the situation in Y Felinheli.

8) Adroddiad Is-Bwyllgor Cofeb y Cloc/Memorial Clock: -

Problem agor drws y cloc – PENDERFYNIAD: Cyng Daniel Williams i gael golwg ar y broblem eto.

Faulty lock on clock door – DECISION – Cllr Daniel Williams to examine the problem again.

9) Ceisiadau Cynllunio/Planning Applications:

DIM CEISIADAU I'W YSTYRIED. / NO APPLICATIONS TO CONSIDER

10) Adroddiad Is Bwyllgor y Fynwent/ Report of the Cemetery Sub-Committee

Gwair wedi cael toriad – safon yn well ond ddim yn cyrraedd y safon ddisgwyliid.
PENDERFYNIAD: Cyngor i gysidro adnewyddu'r gontract ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Tyfiant gwyllt ochr allan wal y Fynwent – Gang Cymunedol wedi glanhau'r ffordd.

HYSBYSFWRDD – Clerc wedi trefnu gan obeithio y bydd yr hysbysfwrdd yn ei le cyn y cyfarfod nesaf.

Adroddwyd bod carreg fedd John Owen , Rhos 7 yn rhydd ac angen sylw.
PENDERFYNIAD – Clerc i holi.

The grass had been cut – standard was better but did not achieve the standard

expected.

DECISION – Council to consider renewing the contract for next year.

Weeds growing on the Cemetery's outside wall – Community Workforce have cleared the overgrowth.

NOTICE BOARD – Clerk arranged and the noticeboard should be in position before the next meeting.

Reported that John Owen headstone on Row 7 is loose and requires attention.

DECISION – Clerk to enquire.

11) Adroddiad Is Bwyllgor Maes Parcio/Lon Las/ Report of the Car Park/Lon Las Sub Committee

Maes Parcio – Mr Japheth wedi glanhau'r maes parcio,

Adroddodd y Cadeirydd ei fod wedi cerdded Lon Las gyda Mark Balaam. Swyddog Cyngor Gwynedd. Nodwyd bod sbwriel adeiladwr wedi ei dipio ar y Lon Las. Cyng Ken Brown i drafod gyda Mark Balaam y gor-dyfiant sydd ar y Lon Las.

Parking Ground – Mr Japheth has cleaned the car park.

The Chairman reported that he had walked the Lon Las with Mark Balaam, Gwynedd Council. Noted that builders' rubble had been tipped onto Lon Las.

Cllr Ken Brown to discuss the over-growth on Lon Las with Mark Balaam.

12) Adroddiad Is Bwyllgor Llwybrau Cyhoeddus/Cysgodfannau/Meinciau Report of Public Footpaths/Shelters/Benches Sub Committee

Llwybrau – cyfarfod ar y cyd a chynghorau eraill er mwyn cyhoeddi taflen yn dangos llwybrau'r ardal. Bu'r Cyng Ken Brown a Iestyn Harris mewn cyfarfod gyda Cynghorau eraill yr ardal er mwyn hybu cyhoeddi taflen yn dangos llwybrau a teithiau'r ardal. Bydd y cyfarfodydd yn dal i gael eu cynnal a bydd pwyllgor yr cael ei sefydlu, gyda'i Cadeirydd a'i Ysgrifennydd ei hyn er mwyn pwyso mlaen gyda'r syniad. Bydd Mr Dafydd Einion Jones, Swyddog Adfywio Bro, Cyngor Gwynedd yn holi ynglyn a grantiau ar gyfer y brosiect.

Arolwg Llwybrau – cais gan Cyng George Smith am wirfoddolwyr i gerdded ac adrodd ar cyflwr y llwybrau.

Adroddwyd bod llwybr Pont Afallen i Bryn y Waun angen sylw.

Footpaths – joint meeting with other councils for the purpose of publishing a leaflet showing the area's footpaths. Cllrs Ken Brown and Iestyn Harris attended a meeting with other councils in order to promote a leaflet showing the footpaths and walks in the area. These meetings will continue to be held and a committee formed with its own Chairman and Secretary in order to promote the suggestion.

Mr Dafydd Einion Jones, Area Regeneration Officer Gwynedd Council to enquire as to grants for the project.

Footpath Survey – Cllr George Smith requested volunteers to walk and report on the condition of the footpaths.

Reported that the footpath Pont Afallen to Bryn y Waun required attention.

13) Adroddiad y Cyngorydd Sir/Report of County Councillor

ADRODDIAD HYDREF 2010

1) Mae cyfarfod blynyddol y Goriad yn cael ei gynnal yn y pentref heno a gan fy mod yn un o'r Golygyddion misol, rwyf yn mynd yno gan ymddiheuro am golli'r cyfarfod o'r Cyngor Cymuned.

2) Llithrfa (Slipway) Gwesty Plas Dinorwic: cafodd y cais ol-weithredol i greu llithrfa fechan ei basio gan Bwyllgor Cynllunio Arfon. Fe soniais am y pryderon lleol ynglyn a safon y gwaith a'r peryg mai jet skis fyddai'n ei ddefnyddio. Fe fydd y swyddog cynllunio a minnau yn cyfarfod yr ymgeisydd i drafod amodau gan gynnwys diogelu'r llwybr cyhoeddus yn y rhan yma o'r pentref a sut i wella edrychiad y llithrfa.

3) Hen Gei Llechi : cefais gyfarfod gyda swyddogion Cymdeithas Preswylwyr Tregwylan sy'n poeni am ymddygiad gwrth-gymdeithasol rhai o drigolion 31 a 32 Hen Gei Llechi sy'n cael eu defnyddio gan Gwmni Clyd fel llety ol-ofal i bobol ifanc. Cytunais i gefnogi eu hymgyrch i wella'r sefyllfa ac mae'r Gymdeithas wedi bod yn annog eu haelodau i lythyru gyda Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd i leisio eu pryderon. Rwy'n deall nad yw 33 Hen Gei Llechi yn rhan o'r cynllun.

4) Gwelliannau Lon Las : fe fydd arddangosfa yn dangos y cynlluniau i wella'r Lon Las yr holl ffordd o Benybryn i Seilo yn cael eu dangos i'r cyhoedd yn y Felin Sgwrsio cyn hir. Bydd croeso cynnes i bentrefwyr alw heibio i roi sylwadau ar yr hyn sy'n cael ei fwriadu. Rydym yn dal i ddisgwyl clywed gan yr Eglwys ynglyn a'r cais i lesu rhan o'r tir tu cefn i Neuadd yr Eglwys er mwyn ei droi yn faes parcio fel rhan o'r cynllun yma.

5) Rhyd Y Fenai a Maes Y Felin : rwyf wedi bod yn pwyso ar Cartrefi Cymunedol Gwynedd i glirio a thacluso'r tir o gwmpas y ddwy stad ac i'w cynnwys fel rhan o'u rhaglen cynnal a chadw rheolaidd gan ei bod yn ymddangos mai achlysurol iawn y bydd y ddwy stad yn cael sylw ar hyn o bryd. Addawyd gwneud gwaith yr wythnos hon.

6) Gang Cymunedol : bydd y Gang yn y pentref ar Rhagfyr 14 am 4 neu 5 diwrnod. Mae nhw ar gael i wneud gwaith twtio ar dir y Cyngor gan gynnwys pafinau ac ochrau ffyrdd, Lan y Mor a'r llwybrau cyhoeddus. Os ydych am gynnwys unrhyw waith ar gyfer eu hymweliad nesaf, cysylltwch a'r Cyngorydd Sir neu Ken Brown (Cadeirydd y Cyngor Cymuned).

7) Gwyl y Felin : mae noson Tan Gwyllt wedi ei threfnu ar gyfer Nos Wener Tachwedd 5. Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi gwneud cyfraniad o £200 o'u cronfa diogelwch cymunedol tuag at drefniadau'r achlysur. Mae'r Heddlu yn cefnogi nosweithiau tan gwyllt sydd wedi eu trefnu yn ofalus oherwydd eu bod yn osgoi damweiniau. Diolch i'r Plisman Cymunedol, Gethin, am sicrhau'r grant.

8) Casglu Sbwriel : bu plant yr ysgol yn helpu aelodau Felin Daclus i gasglu sbwriel ar Medi 24. Llanwyd 7 bag mewn awr. Clirwyd o gwmpas ochrau'r Maes Parcio ac ar y strydoedd. Roedd cryn lanast ar y stepiau tu ol i Londis a diolch i'r plant a'r staff am eu help. Diolch hefyd i Ganolfan Brynffynnon fu'n casglu sbwriel ar Lan Mor ar

Medi 23.

9) Bore Coffi World's Biggest Coffee Morning : Cafwyd bore coffi yn Y Felin Sgwrsio i codi arian i Ymchwil Cancr a llwyddwyd i godi £113 mewn cyfnod byr. Diolch i bawb am eu cyfraniadau a'u help. Galwodd yr Aelod Cynulliad, Alun Ffred Jones, heibio am banad.

10) Cyfyngu cyflymder traffig ochr Caernarfon o'r pentref : mae'r Cyngor Sir yn bwriadu gosod cyflymder o 40 milltir yr awr ar ol yr arwydd 30 milltir yr awr ar Ffordd Caernarfon a draw heibio cartref Cerrig yr Afon. Mae hyn yn rhan o'r gwelliannau i'r Lon Las gan bydd mwy o feicwyr a cherddwyr yn croesi yn fan hyn ar ol y gwaith gwella sy'n cynnwys creu Lon Las drwy goedwig Cerrig yr Afon i'r Ysgol.

11) Bum yn cadeirio cyfarfod gwobrwyo Felin Mewn Blodau eto eleni pryd cafodd 18 gwobr eu rhoi i arddwyr lleol. Diolch i'r Cynghorydd Pat White am ei gwaith trylwyr eto eleni. Mae lluniau o'r gerddi werth eu gweld ar www.felinheli.org ynghyd a lluniau a newyddion diweddar o'r pentref. Cofiwch fynd i'r wefan!

14) Cystadleuaeth Garddio / Gardening Competition

Noson wobreuo llwyddiannus wedi ei chynnal nos Fawrth 28 Medi ym Mhlas Dinorwic.

Y cyngor yn ddiolchgar iawn i'r Cyng Pat White am drefnu'r gystadleuaeth a'r noson wobreuo.

A successful prize giving evening was held on Tuesday 28th September at Plas Dinorwic.

The council very much appreciate Cllr Pat White's efforts in arranging the competition and the prize giving evening.

15) Unrhyw Fater Arall / Any Other Matter

1) Cais gan Mr Len Williams am ad-daliad ariannol tuag at offer i gynnal arddangosfa yn y Neuadd Goffa ym mis Tachwedd.
PENDERFYNIAD – Talu y swm o £30.90 yn ol yr anfonebau a ddangoswyd.

A request from Mr Len Williams for financial assistance to reimburse items bought to hold an exhibition at the Memorial Hall at the end of November.
DECISION – Agreed to pay the sum of £30.90 as per receipts produced.

2) Cwyn wedi ei dderbyn ynglyn a cyflwr Lan y Mor – awgrymwyd codi Is-Bwyllgor i adrodd ar y mater.
PENDERFYNIAD – Cynnwys fel eitem ar agenda misol y Cyngor.

A complaint had been received regarding the state of the Beach area.
Suggested that a sub-committee be formed to report on this matter.
DECIDED – the topic be included as a monthly agenda item

Dim materion eraill i'w trafod and the meeting finished at 8.20.p.m..
No other matters to discuss and the meeting finished at 8.20.p.m.

